OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3365

# Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2005

## RHAN III

NATUR A CHWMPAS Y WEITHDREFN SYLWADAU

**Cwmpas y weithdrefn sylwadau**

**7.** Mae swyddogaethau canlynol awdurdod lleol yn swyddogaethau cymwys at ddibenion adran 26(3) o'r Ddeddf—

(a) swyddogaethau o dan adran 31;

(b) swyddogaethau o dan adran 33;

(c) swyddogaethau o dan adran 34;

(ch) swyddogaethau o dan adran 35;

(d) swyddogaethau o dan adran 43;

(dd) swyddogaethau o dan adran 44; ac

(e) swyddogaethau o dan adran 47.

**Sylwadau darostyngedig i ystyriaeth gydredol**

**8.**—(1) Pan fo sylwadau'n ymwneud ag unrhyw fater—

(a) y mae'r achwynydd wedi datgan yn ysgrifenedig ei fod yn bwriadu dwyn achos mewn unrhyw lys neu dribiwnlys yn ei gylch, neu

(b) y mae'r awdurdod lleol yn dwyn achos disgyblu neu'n bwriadu dwyn achos disgyblu yn ei gylch, neu

(c) y mae'r awdurdod lleol wedi'i hysbysu bod ymchwiliad yn cael ei gynnal iddo gan unrhyw berson neu gorff gyda'r bwriad o ddwyn achos troseddol, neu

(ch) y galwyd cyfarfod yn ei gylch o gyrff eraill gan gynnwys yr heddlu i drafod materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant neu oedolion hawdd eu niweidio, neu

(d) yr hysbyswyd yr awdurdod lleol yn ei gylch, fod ymchwiliadau cyfredol yn mynd rhagddynt gyda'r bwriad o ddwyn achosion o dan adran 59 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**),

rhaid i'r awdurdod lleol ystyried, drwy ymgynghori â'r achwynydd ac ag unrhyw berson neu gorff arall y mae'n briodol ymgynghori ag ef ym marn yr awdurdod, sut y dylid ymdrin â'r sylwadau. Cyfeirir at sylwadau o'r fath at ddibenion y rheoliad hwn fel "sylwadau darostyngedig i ystyriaeth gydredol".

(**1**) 2000 p.14.

(2) Caniateir rhoi'r gorau i ystyried sylwadau darostyngedig i ystyriaeth gydredol os ymddengys i'r awdurdod lleol ar unrhyw adeg y byddai parhau i'w hystyried yn peryglu neu'n rhagfarnu'r ystyriaeth arall.

(3) Pan fydd yr awdurdod lleol yn penderfynu rhoi'r gorau i ystyried cwyn o dan baragraff (2) rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r achwynydd o'r penderfyniad hwnnw.

(4) Pan fydd yr awdurdod lleol yn rhoi'r gorau i ystyried unrhyw sylwadau o dan baragraff (2), caiff fynd yn ôl i'w hystyried ar unrhyw adeg.

(5) Pan roddwyd y gorau i ystyried cwyn o dan baragraff (2) rhaid i'r awdurdod ganfod a yw'r ystyriaeth gydredol yn mynd rhagddi a rhaid iddo hysbysu'r achwynydd pan fydd wedi dod i ben.

(6) Rhaid i'r awdurdod lleol fynd yn ôl i ystyried unrhyw sylwadau pan roddir y gorau i'r ystyriaeth gydredol neu os daw'r ystyriaeth gydredol i ben a bod yr achwynydd yn gofyn am i'r sylwadau gael eu hystyried o dan y Rheoliadau hyn.

### Sylwadau y mae'n dod i ran mwy nag un awdurdod lleol i'w hystyried

**9.** Pan fyddai'r sylwadau'n rhai y byddai'n dod i ran mwy nag un awdurdod lleol i'w hystyried, rhaid iddynt gael eu hystyried gan—

(a) yr awdurdod sy'n gofalu neu a oedd yn gofalu am y plentyn y mae'r sylwadau'n ymwneud ag ef neu a oedd yn gofalu am y cyn-blentyn y mae'r sylwadau'n ymwneud ag ef; neu

(b) pan nad oes gan neu pan nad oedd gan unrhyw awdurdod y cyfrifoldeb hwnnw, gan yr awdurdod y mae'r plentyn yn preswylio'n arferol neu yr oedd y plentyn yn preswylio'n arferol ddiwethaf yn ei ardal.

### Ymdrin â sylwadau safonau gofal

**10.**—(1) Ac eithrio pan fydd paragraff (2) yn gymwys, mewn unrhyw achos pan fydd sylwadau'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol â gwasanaethau a ddarperir gan sefydliad neu asiantaeth y mae person wedi'i gofrestru gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiad ag ef neu â hi o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 neu Ddeddf Plant 1989, rhaid i'r awdurdod lleol y daw sylwadau o'r fath i'w law, o fewn 2 ddiwrnod gwaith i'r sylwadau ddod i law—

(a) anfon manylion am y sylwadau cyfan neu am y rhan honno o unrhyw sylw sy'n ymwneud â'r gwasanaeth cofrestredig at y person a gofrestrwyd fel darparwr mewn cysylltiad â'r sefydliad hwnnw neu'r asiantaeth honno;

(b) gofyn i'r person yr anfonir ato fanylion o dan is-baragraff (a) hysbysu'r awdurdod o fewn 10 niwrnod gwaith o ganlyniad ei ystyriaeth o'r gŵyn; a

(c) hysbysu'r achwynydd o'r camau sydd wedi'u cymryd o dan is-baragraffau (a) a (b).

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan fo sylwadau eisoes wedi'u hystyried gan y person cofrestredig; neu

(b) pan fo'r awdurdod lleol o'r farn y byddai mynd ymlaen o dan baragraff (1) yn debygol o beryglu neu ragfarnu'r ymchwiliad i'r sylwadau o dan Ran IV o'r Rheoliadau neu y byddai'n peryglu neu'n rhagfarnu ymchwiliad gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Mewn unrhyw achos pan fo sylwadau'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol â gwasanaethau a ddarperir gan sefydliad neu asiantaeth y mae person wedi'i gofrestru gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiad ag ef neu hi, rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu swyddfa briodol ("appropriate office") y Cynulliad Cenedlaethol os na fu'n bosibl dod i benderfyniad ar y sylwadau o dan reoliad 15.